**Atodiad C**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **30 Mehefin 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Addysg/Pennaeth Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Adolygiad o'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ystyried effaith rhoi'r polisi cludiant ysgol newydd ar waith o fis Medi 2015.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd yma; a

3.2 Bod Aelodau yn cymeradwyo diweddaru'r Polisi Cymhwyster Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol o safbwynt y wybodaeth a ddarparwyd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 Cefndir

4.1.1 Yng Ngweithdy Rhyddid a Hyblygrwydd 17 Mehefin 2014 cymeradwyodd yr Aelodau Etholedig y bwriad o adolygu'r Polisi Cludiant Ysgolion cyfredol. Canlyniad y broses hon oedd Polisi diwygiedig a gafodd ei roi ar waith ym mis Medi 2015.

4.1.2 Pwrpas yr adolygiad gan Ryddid a Hyblygrwydd oedd archwilio'r meysydd canlynol: (1) Sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheol 2/3 milltir Cynradd/Uwchradd; (2) Darpariaeth Ffydd/Iaith; (3) Darpariaeth Ôl 16; (4) Ymarferoldeb pwyntiau codi/gollwng canolog; (5) darpariaeth AAA (6) Llwybrau Peryglus

4.1.3 Roedd yr adolygiad hefyd yn cydnabod fod pwysau ariannol ar y gyllideb Cludiant Ysgol ar y pryd, yn rhannol oherwydd camgymeriadau hanesyddol yn y gwasanaethau a ddarparwyd; y ceisiodd yr adroddiad eu cywiro. Esiampl o hyn oedd y nifer o deithiau lle nad oedd disgyblion yn mynychu eu hysgol addas agosaf ond lle roeddynt yn dal i dderbyn cludiant am ddim.

4.1.4 Yn dilyn yr adolygiad, cadarnhaodd Aelodau'r polisi yn y Cabinet ar 30 Medi 2014, lle penderfynwyd y dylid: *g) cynnal asesiad o effaith adolygu'r polisi a'i gyflwyno i Archwilio wedi i'r polisi fod ar waith am flwyddyn*:

4.1.5 Ar gais yr Aelodau mae'r adolygiad hwn wedi ei symud ymlaen i'r cyfarfod Archwilio hwn ym mis Mehefin 2016.

4.2 **Cefndir Deddfwriaethol y Polisi Cludiant i'r Ysgol**

4.2.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer darparu cludiant i ysgolion. O fewn y Mesur hwn mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu cludiant i'r ysgol am ddim i'r ysgol addas agosaf ar gyfer:

- Disgyblion ysgolion cynradd os ydynt yn byw ymhellach na 2 filltir oddi wrth ysgol; neu
- Ddisgyblion ysgolion uwchradd os ydynt yn byw ymhellach na 3 filltir oddi wrth ysgol.

4.2.2 Rhoddir diffiniad o'r ysgol addas agosaf yn y Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014, sy'n cyd-fynd â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008; a dangosir rhan ohono yn Atodiad 1.

4.2.3 Os yw disgyblion yn byw yn agosach na'r pellteroedd a nodir yn 4.2.1, yna o dan Ddeddfwriaeth mae disgwyliad rhesymol iddynt gerdded i'r ysgol, gyda hebryngydd pan fo'r angen, cyn belled â bod llwybr cerdded diogel ar gael iddynt. Os nad oes llwybr cerdded diogel ar gael yna bydd yr Awdurdod Addysg lleol yn darparu cludiant ysgol am ddim i'r ysgol addas agosaf atynt.

4.2.4 Mae'r Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014 hefyd yn cynnwys canllawiau statudol ar gynnal asesiadau risg ar lwybrau cerdded i'r ysgol. Mae Adran 1, pennod 5 y canllaw yn nodi'r meini prawf asesu risg. Dangosir rhan o'r bennod hon yn Atodiad 2.

4.2.5 Os yw rhieni yn mynegi eu bod am i'w plant gael mynediad i ysgol nad yw'n ysgol addas agosaf iddynt fel blaenoriaeth yna ni fydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant i'r ysgol am ddim; fodd bynnag gall rhieni dalu am seddi rhatach ar gludiant a ddarperir (o fewn cytundebau ysgolion caeedig yr Awdurdod); os oes seddi ar gael. Ni chaniateir consesiynau lle mae gwasanaeth bws cyfochrog ar gael. Dangosir yr amodau sy'n berthnasol i seddi rhatach o dan bolisi Sir Ddinbych yn Atodiad 3.

4.2.6 Rhoddir gwybod i rieni yn ystod y broses Mynediad i ysgolion taw dim ond ar gyfer yr ysgol addas agosaf y mae cludiant am ddim ar gael. Mae map ar wefan Sir Ddinbych fel y gall rhieni wirio pa ysgol yw'r agosaf atynt. Bydd y ddolen isod yn mynd â chi at y map ar wefan y Cyngor: https://mapiau.sirddinbych.gov.uk/FySirddinbych.aspx

4.2.7 Ar sail ddewisol, bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn darparu cludiant ysgol am ddim i'r ysgol gyfrwng Gymraeg neu ysgol Ffydd agosaf hefyd os yw hyn yn flaenoriaeth i'r rhiant.

## 4.3 Ymateb i'r Newid Polisi yn 2015

4.3.1 Wedi hysbysu'r rhieni am y newid Polisi yn gynnar yn 2015, derbyniodd Cefnogaeth Addysg / Cludiant Teithwyr tua 250 o alwadau yn gofyn am eglurhad o'r newid; o gyfanswm o 3119 o blant sy'n derbyn cludiant (Cynradd 584, Uwchradd 2236 ac AAA 299).

4.3.2 Yn dilyn yr ymholiadau hyn derbyniodd yr Awdurdod tua 35 apêl/cwyn gan rieni ynghylch y newidiadau a wnaed (mae Atodiad 4 yn dangos y broses apelio). Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud yn bennaf gyda dileu tacsis gwennol, a llwybrau peryglus rhwng y cartref a'r mannau codi a ddarperir. Cafodd rhai o'r cwynion hyn eu trosglwyddo i'r Ombwdsmon Lleol ac ymatebodd yr Awdurdod yn ôl yr angen.

4.3.3 Safbwynt yr Awdurdod oedd mai cyfrifoldeb rhieni oedd sicrhau bod eu plant yn cyrraedd ac yn dychwelyd yn ddiogel o'u man codi penodol, os nad oedd amgylchiadau a fyddai'n caniatáu defnyddio disgresiwn.

4.3.4 Nid oes dim byd ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yn atal yr Awdurdod rhag defnyddio mannau codi yn y dull a ddisgrifir yn y polisi, nac ychwaith rhag mynnu mai cyfrifoldeb y rhieni yw sicrhau eu bod yn cyrraedd ac yn dychwelyd o'r mannau codi yn ddiogel.

4.3.5 O safbwynt 4.3.3, derbyniodd yr Awdurdod Lleol her Adolygiad Barnwrol ar ddiwedd 2015. Roedd yn dadlau fod gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i gludo o'r cartref i'r man codi oherwydd llwybrau peryglus.

4.3.6 Cafodd yr Awdurdod gyngor cyfreithiol o safbwynt yr Adolygiad Barnwrol ac awgrymwyd bod angen sicrhau bod geiriad ein polisi yn fwy eglur. Rhoddodd ein cyngor cyfreithiol hefyd gyngor ar amgylchiadau lle dylai'r Awdurdod ddefnyddio disgresiwn ynglŷn â darparu tacsis gwennol i ac o'r man codi.

4.3.7 Yn sgil y canllaw a ddarparwyd, ail edrychodd yr Awdurdod ar sefyllfa'r rheiny a ddygodd yr Adolygiad Barnwrol ymlaen, ac ystyriwyd hefyd wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt ynghylch eu hamgylchiadau. Galluogodd yr ailasesiadau hyn yr Awdurdod i ddefnyddio'u ddisgresiwn i ddarparu gwasanaethau tacsi gwennol ac adferwyd eu gwasanaethau.

4.3.8 Derbyniwyd llythyr cyn gweithredu gan deuluoedd eraill oedd yn mynegi pryderon am eu hamgylchiadau. O ganlyniad i hynny ailedrychodd yr Awdurdod ar yr achosion hyn yn ogystal â'r apeliadau /cwynion blaenorol er mwyn sicrhau ein bod yn gyson. Canlyniad y broses hon oedd bod nifer o wasanaethau tacsi gwennol wedi eu hailsefydlu.

4.3.9 Aeth yr Awdurdod ati i ysgrifennu at 165 o deuluoedd eraill a nodwyd y gallent fod yn byw ar lwybr peryg, gan ofyn iddynt wneud cais am gludiant a darparu mwy o fanylion am eu hamgylchiadau. Darparwyd yr un wybodaeth mewn datganiad i'r wasg ac ar gyfryngau cymdeithasol Sir Ddinbych.

4.3.10 Hyd yma mae 85 o wasanaethau wedi eu gosod yn dilyn ar ailasesiadau hyn. Fel rhan o'r broses hon mae'r nifer o lwybrau peryglus wedi cynyddu i 152.

4.3.11 Mae canllawiau erbyn hyn wedi eu cyhoeddi er mwyn egluro'r polisi presennol ac atal camddehongliad. Dangosir y canllawiau hyn yn Atodiad 5 ac mae ar gael ynghyd â'r Polisi ar wefan yr Awdurdod.

4.4 **Adolygu Polisi – Y Camau Nesaf**

4.4.1 Yn sgil y canllawiau yn Atodiad 5, mae angen diweddaru'r polisi cyfredol bellach er mwyn cynnwys hyn. Mae angen gwneud rhai mân ddiweddariadau hefyd o fewn y polisi ar feysydd nad ydynt yn gysylltiedig.

4.4.2 Fel rhan o'r broses bydd angen i'r Awdurdod gynnal ymarfer ymgynghori gyda phob rhanddeiliaid perthnasol. Bydd angen cwblhau unrhyw adolygiad o'r polisi yn llawn 12 mis cyn ei roi ar waith. Dangosir yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer y broses isod:

- **Drafft polisi newydd wedi ei orffen erbyn Rhagfyr 2016**
- **Ymgynghori gyda rhanddeiliaid o Ionawr 2017**
- **Polisi newydd terfynol erbyn Mehefin 2017**
- **Y Cyngor i gadarnhau'r polisi erbyn Medi 2017**
- **Rhoi'r polisi newydd ar waith o fis Medi 2018**

4.5 **Goblygiadau Cyllidebol**

4.5.1 Bu i adolygiad diweddaraf y polisi yn 2015 sicrhau ei fod yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chafodd wared ar gamgymeriadau cludiant ysgol hanesyddol. Ystyriwyd cost y gwasanaeth fel rhan o'r adolygiad hwn er mwyn sicrhau bod cludiant ysgol yn effeithiol ac yn gost effeithlon. Roedd gosod mannau codi yn rhan o'r newidiadau effeithlonrwydd hyn, yn yr un modd ag yr oedd sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r polisi ysgol addas agosaf.

4.5.2 Gan fod yr Awdurdod bellach wedi egluro elfennau penodol o'n polisi o fewn cyd-destun Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae wedi codi'r mater o gost y gwasanaeth wrth gwrdd y gofynion hyn.

4.5.3 Mae sicrhau bod y gyllideb cludiant ysgol yn cael ei raddio'n gywir i gwrdd y gofynion a nodir yn yr adroddiad hwn yn hanfodol bwysig. Mae'r pwysau cyllidol disgwyliedig ar gyfer 2016/17 yn debygol o fod rhwng £200,000 a £300,000, a bydd y darlun yn gliriach unwaith y byddwn yn ymwybodol o'r sefyllfa chwe mis. Mae'r mater yn cael ei asesu gyda'r Pennaeth Cyllid ac unwaith y bydd wedi ei benderfynu caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Aelodau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r gwasanaethau a ddisgrifir yma oll yn gefnogol i flaenoriaeth "Gwella Addysg".

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae sefyllfa gyllidebol bresennol Cludiant Ysgol yn cael ei harchwilio. Disgwylir y bydd cost y gwasanaeth yn cynyddu er mwyn cwrdd goblygiadau parhaol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AoEaG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae'r adroddiad hwn yn diffinio'r adolygiad Cludiant Ysgol. Nid oes drafft terfynol o'r Polisi ar gael eto er y bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal ar y polisi drafft terfynol cyn ei gadarnhau'n derfynol yn 2017.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Yr Adroddiad Archwilio hwn yw'r ymgynghoriad cyntaf gydag Aelodau o safbwynt diweddaru Polisi. Bwriedir ymgynghori gyda phob rhanddeiliaid perthnasol fel y nodir yn yr amserlen a nodir yn 4.4.2 a bydd yn symud ymlaen unwaith y cytunir ar y broses adolygu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig fod gan y cyngor bolisi priodol mewn lle a bydd yr adolygiad hwn yn sicrhau hynny. Amcangyfrifir bod goblygiadau ariannol rhoi'r polisi hwn ar waith rhwng £200,000 - £300,000 a chaiff ei ystyried yn y cylch cyllido, er na fydd amcangyfrif mwy penodol ar gael tan fis Hydref/Tachwedd 2016. Dylid nodi bod yr adolygiad diweddar o gludiant ysgol wedi ei amlinellu yn ystod proses gyllido 2015, ond ni chafodd y gyllideb cludiant ei lleihau o ganlyniad i hynny.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'n bosib y ceir cyhoeddusrwydd negyddol o ddiweddaru'r Polisi hwn, er bod y newidiadau yn egluro'r goblygiadau o dan Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, y mae pawb sydd wedi apelio neu wedi cwyno wedi eu trin eisoes.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Mae pwerau Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisïau yn cael eu hamlinellu yn Erthygl 6.3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:** Rheolwr Adnoddau a Chefnogaeth Addysg (Cynllunio ac Adnoddau) Ffôn: 01824 712692